NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon — The Teachers' Union

# BWLETIN

## Llwyddiant o ran cydraddoli'r buddion i oroeswyr yn y Cynllun Pensiwn Athrawon

Ers blynyddoedd lawer, mae NASUWT wedi bod yn ymgyrchu dros gydraddoldeb llawn yn y ddarpariaeth buddion i oroeswyr o dan y Cynllun Pensiwn Athrawon.

Ar 14 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Adran Addysg Llywodraeth y DU ei bod, o'r diwedd, yn cydraddoli'r ddarpariaeth fuddion i oroeswyr yn llawn ac y byddai hyn yn dod yn weithredol ar unwaith. Maes o law, bydd Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn cael eu newid i nodi'n glir bod pob pensiwn i oedolion sy'n oroeswyr yn cael eu cyfrifo ar sail pensiwn a gronnwyd gan eu partner ymadawedig ers 1972. Fodd bynnag, mae'r Adran Addysg wedi derbyn bod hawl gan fuddiolwyr sydd wedi'u heffeithio i gael pensiynau diwygiedig ar unwaith ac na ddylid gohirio hynny nes bydd y Rheoliadau diwygiedig yn eu lle. Yn ogystal, bydd yr hawl gan rai gwŷr gweddw o dan y Cynllun Pensiwn gael ôl-daliadau yn ychwanegol at bensiwn uwch.

I grynhoi, dyma'r newid i bensiynau gwŷr gweddw:

- bydd gwŷr priod a phartneriaid sifil gwrywaidd aelodau benywaidd o'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn derbyn buddion goroeswr a gyfrifir ar sail y cyfnodau o wasanaeth pensiynadwy a gronnwyd gan yr aelod ers Ebrill 1972 (neu Ebrill 1978 os digwyddodd y briodas neu'r bartneriaeth sifil ar ôl diwrnod olaf y cyfnod o wasanaeth pensiynadwy).

Bydd y newid yn weithredol os bu farw'r aelod benywaidd o'r Cynllun Pensiwn Athrawon ar 5 Rhagfyr 2005 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Bydd athrawesau traws mewn priodasau heterorywiol a phartneriaethau sifil hefyd yn elwa o'r newid i'r Rheoliadau. Bydd yn dod â'r anghysondeb i ben lle gallai menywod traws golli rhan o'u pensiwn cronnus i'w partneriaid os, a phan, y byddent yn derbyn Tystysgrif Cydnabod Rhywedd.

### Y cefndir

Yn hanesyddol, mae'r ddarpariaeth fuddion i'r goroeswr wedi bod yn wahaniaethol, gan gyfrifo pensiynau goroeswr i wragedd gweddw ers 1988 ar sail pensiwn y partner ymadawedig a gronnwyd ers 1972, ond gan gyfrifo pensiynau goroeswr i wŷr gweddw, partneriaid sifil a chyplau priod o'r un rhyw ar sail pensiwn y partner ymadawedig a gronnwyd ers 1988.

### Cydraddoldeb i bartneriaid o'r un rhyw

Yn 2019, o ganlyniad i waith ymgyrchu NASUWT, aeth Llywodraeth y DU ati i gydraddoli'r ddarpariaeth buddion goroeswyr i bartneriaid sifil a chyplau priod o'r un rhyw, gan olygu bod eu pensiynau goroeswr wedi'u cyfrifo ar sail pensiwn eu partner ymadawedig a gronnwyd ers 1972. Cymeradwyodd NASUWT y torri tir newydd hwn mewn cydraddoldeb i athrawon lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LHD).

### Pensiynau gwŷr gweddw

Roedd hyn yn golygu bod y gwahaniaethu oedd yn weddill yn y Cynllun Pensiwn Athrawon yn gwahaniaethu tuag at wŷr gweddw o briodasau heterorywiol a dynion sy'n goroesi partneriaeth sifil

heterorywiol. Cyfrifwyd pensiynau'r goroeswyr hyn ar sail pensiwn eu partner ymadawedig a gronnwyd ers 1988, heblaw bod eu gwraig neu bartner sifil wedi talu am fuddion pensiwn ychwanegol i'w gŵr/partner sifil a fyddai'n eu goroesi..

Bu NASUWT yn parhau i ymgyrchu dros gydraddoldeb llawn i holl bartneriaid cyfreithiol athrawon. Ym mis Mehefin 2019, ymatebodd NASUWT i ymgynghoriad yr Adran Addysg ar fuddion i oroeswyr fel hyn:

*"Mae hi'n sylfaenol annheg ac mae hefyd, o bosib, yn gwahaniaethu yn erbyn athrawesau mewn priodasau heterorywiol, os bydd buddion pensiwn gwŷr gweddw'n deillio o gyfnodau cronnus o wasanaeth ers 1988 yn unig.*

*Er mwyn cwblhau'r diwygiadau i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn llawn i sicrhau nad yw eu darpariaethau i oedolion sy'n goroesi'n wahaniaethol, mae'n rhaid trin cyfnodau a gronnwyd ers 1972 fel rhai sy'n cyfrannu tuag at fuddion pensiwn gwŷr gweddw… Byddai gwneud fel arall yn parhau math o wahaniaethu annerbyniol yn erbyn athrawesau."*

## Yr hyn y dylai aelodau NASUWT ei wneud

**Nid oes angen i aelodau NASUWT, na'u partneriaid, wneud unrhyw beth heblaw eu bod yn derbyn pensiynau o dan y Cynllun Pensiwn Athrawon i ddynion sy'n goroesi. Bydd unrhyw bensiynau goroeswyr y bydd gan wŷr gweddw athrawon yr hawl iddynt yn y dyfodol yn cael eu haddasu i gymryd i ystyriaeth y newid ym mholisïau'r Llywodraeth a Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Athrawon.**

Dylai:

- aelodau o NASUWT sy'n derbyn pensiwn gweddw;
- gwŷr gweddw neu bartneriaid sifil gwrywaidd sy'n goroesi aelodau NASUWT, sy'n derbyn pensiwn gŵr gweddw;
- buddiolwyr pensiwn gwragedd neu bartneriaid sifil benywaidd a fu farw ac a gronnodd gyfnodau o wasanaeth cyn 1988 o dan y Cynllun Pensiwn Athrawon;
- buddiolwyr pensiwn gwragedd neu bartneriaid sifil benywaidd a fu farw ar 5 Rhagfyr 2005 neu ar ôl hynny;

gysylltu'n uniongyrchol â Teachers' Pensions i drafod diwygio eu pensiwn.

**Nodwch na ddylai buddiolwyr y pensiwn goroeswr gysylltu â NASUWT i ofyn i'w pensiwn gael ei ddiwygio. Ni fyddai NASUWT yn pasio manylion cyswllt ei aelodau i Teachers' Pensions o dan yr amgylchiadau hyn.**

Gallwch gysylltu â Teachers' Pensions drwy'r porth ar-lein 'My Pension Online' ar: **https://www.teacherspensions.co.uk/members/member-hub.aspx**. Dylai'r aelodau nodi mai'r dull gorau o gysylltu â Teachers' Pensions yn ystod pandemig y Coronafeirws yw drwy'r porth 'My Pension Online'.

Mae NASUWT wrthi'n ymgysylltu â'r Adran Addysg ynghylch olrhain pob buddiolwr pensiwn gŵr gweddw i asesu a oes hawl ganddynt i gael pensiynau uwch ac ôl-daliadau. Mae NASUWT hefyd yn ymgysylltu â'r Adran Addysg ynghylch ad-dalu cyfraniadau dewisol i bensiynau a dalwyd gan aelodau benywaidd i sicrhau'r hawl i'w gwŷr am gyfnodau o wasanaeth a gronnwyd cyn 1988 o dan y Cynllun Pensiwn Athrawon.